



**Gweinyddiaeth
CYFIAWNDER**


Gwasanaeth Cenedlaethol
Rheoli Troseddwyr

Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr: Cynllun Iaith Gymraeg

Crynodeb o'r Ymatebion

Ymateb i Ymgynghoriad CP(R) 13/2013

[Cyhoeddir yr ymateb hwn ar 25 Mawrth 2013]





**Gweinyddiaeth
CYFIAWNDER**

Gwasanaeth Cenedlaethol
Rheoli Troseddwyr

**Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli
Troseddwyr: Cynllun Iaith Gymraeg**

Crynodeb o'r Ymatebion

**Ymateb i ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Cenedlaethol
Rheoli Troseddwyr, rhan o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae'r wybodaeth
hon ar gael ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder hefyd:
www.justice.gov.uk**

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

At: Anelir yr ymgynghoriad hwn at randdeiliaid Asiantaeth NOMS yng Nghymru a Lloegr a'r cyhoedd yn gyffredinol sydd â diddordeb mewn mynediad i'r Iaith Gymraeg yn NOMS.

Hyd: O 04/09/12 tan 04/12/12

Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat arall) at:

Suzanne Dean
NOMS Women and Equalities Group
Ministry of Justice
Clive House, 70 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
Tel: 0300 047 6588
Ebost: welshlanguage@noms.gsi.gov.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad a manylion cysylltu	2
2.	Cefndir	3
3.	Crynodeb o'r ymatebion	5
4.	Ymatebion i gwestiynau penodol	6
5.	Y casgliad a'r camau nesaf	11
6.	Egwyddorion yr ymgynghoriad	12
	Atodiad A – Rhestr o'r Ymatebwyr	13

1. Cyflwyniad a manylion cysylltu

Y ddogfen hon yw'r adroddiad ôl-ymgyngori ar gyfer y papur ymgynghori, Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy: Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd yn rhoi sylw i'r canlynol:

- cefndir yr adroddiad
- crynodeb o'r ymatebion i'r adroddiad
- ymateb manwl i'r cwestiynau penodol a godir yn yr adroddiad,
- y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori drwy gysylltu â **Suzanne Dean** yn y cyfeiriad isod:

NOMS Women and Equalities Group
Ministry of Justice
Clive House, 70 Petty France
Llundain SW1H 9AJ

Telephone: 0300 047 6588

E-bost: welshlanguage@noms.gsi.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn ar gael ar wefan y Weinyddiaeth
hefyd: www.justice.gov.uk.

Gellir gwneud cais am gopiâu o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill
drwy e-bostio welshlanguage@noms.gsi.gov.uk

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech chi gysylltu â'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy yn y cyfeiriad uchod.

2. Cefndir

Cafodd y papur ymgynghori 'Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy: Cynllun Iaith Gymraeg' ei gyhoeddi ar 04/09/12. Roedd yn gwahodd sylwadau am y dulliau yr ydym yn eu cynnig ar gyfer sicrhau bod yr iaith Gymraeg yr un mor hygyrch â'r Saesneg mewn carchardai, mewn ymddiriedolaethau prawf ac yn swyddfeydd NOMS; ein dulliau ar gyfer cyflawni'r mesurau hyn, eu monitro a'u hadolygu'n barhaus.

Mae NOMS wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Roedd ein cynigion yn canolbwyntio ar garchardai'n bennaf gan fod angen diweddarau sawl maes polisi sy'n ymwneud â charchardai er mwyn i'n harferion gyd-fynd â'r Safonau Iaith Gymraeg newydd. Nid yw'r Cynllun yn effeithio gymaint ar reoli troseddwy'r yn y gymuned.

Roedd y Cynllun yn ein hymrwymo i'r canlynol:

- Creu **Cyfarwyddyd Gwasanaeth Carchardai** (PSI) newydd ar yr iaith Gymraeg a fydd yn beirianwaith darparu ar ein cyfer mewn carchardai ac ym mhencadlys NOMS - dogfen bolisi genedlaethol sy'n cael ei monitro a'i hadolygu.
- **Cynllun gweithredu** sy'n disgrifio'r ymrwymadau ac mae modd ei ddefnyddio i ddal NOMS yn atebol o ran cyflawni'r ymrwymadau, gan gynnwys perchnogaeth a dyddiadau targed. Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei fonitro a'i adolygu hefyd.
- **Diweddarau ein polisïau presennol i:**
 - Sicrhau bod ein staff sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd yng Nghymru yn cael eu hyfforddi'n briodol yn y Gymraeg a bod gweithdrefnau cadarn ar gael ar gyfer cael gafael ar ein siaradwyr Cymraeg, bryd bynnag a chan bwy bynnag y bydd eu hangen.
 - Rhoi mwy o gyfle i garcharorion ddatgan mai Cymraeg yw eu dewis iaith a defnyddio'r wybodaeth honno i ddarparu gwasanaethau priodol iddynt tra maent yn y carchar.
 - Gwella amrywiaeth a nifer y deunyddiau sydd ar gael yn Gymraeg, ar gyfer carcharorion a staff
 - Ystyried gwella ein prosesau casglu, rhannu a storio gwybodaeth;
- **Adolygu a diweddarau ein Cynllun Iaith Gymraeg** yn flynyddol.

Daeth cyfnod yr ymgynghoriad i ben ar 04/12/12 ac mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion, gan gynnwys sut mae'r broses ymgynghori wedi dylanwadu ar y Cynllun terfynol.

Ni roddodd y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad sylwadau ar yr Asesiad o Effaith. Felly, nid yw Asesiad o Effaith y cam ymgynghori wedi cael ei ddiwygio.

Gellir cael papur ymateb Cymraeg yn [mewnosod dolen]

Ceir rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad A.

3. Crynodeb o'r ymatebion

Gyda'i gilydd cafwyd **5 ymateb llawn** i'r papur ymgynghori, a **3 ymateb arall dros yr e-bost** a oedd yn rhoi sylw i bwyntiau penodol. O'r rhain, daeth 3 gan staff yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder, a'r gweddill gan aelodau o'r cyhoedd.

Roedd yr ymarfer ymgynghori yn gofyn 12 cwestiwn penodol am y cynllun. Roedd llawer o'r rhain yn ymwneud â'r dull cyffredinol o weithredu a'r egwyddorion yr oeddem yn gobeithio'u mabwysiadu. Gwnaethom ofyn rhai cwestiynau penodol am y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau i grwpiau penodol o garcharorion, er enghraifft, lle nad oes cyfleuster carcharu ar gyfer menywod yng Nghymru ac mewn carchardai yn Lloegr. Roeddem yn arbennig o awyddus i gael barn ynghylch sut y gellid rhoi sylw i'r materion hyn.

Yn gyffredinol, cawsom ymatebion defnyddiol i'n hymgyngoriad y byddwn yn gallu'u defnyddio i ddiwygio'r Cynllun ac i gyfrannu at ddarparu gwasanaethau. Er enghraifft:

- Mae arnom angen bod yn gliriach gyda'n hiaith yn y Cynllun ee, bydd rhai cyfeiriadau at 'garcharorion sy'n siarad Cymraeg' neu 'siaradwyr Cymraeg' yn cael eu newid i 'garcharorion y mae'r Gymraeg yn ddewis iaith iddynt', ar y sail na fydd pawb sy'n siarad Cymraeg yn mynnu cael y gwasanaeth na'n gofyn amdano.

- Mae arnom angen bod yn gliriach ynghylch perchnogaeth camau gweithredu yn enwedig o ran cyllido, ac ailedrych ar ein hamserlen ar gyfer darparu i sicrhau bod modd cyflawni.

Fodd bynnag, ceir rhai safbwyntiau croes sy'n cwestiynu'r angen am unrhyw wasanaeth Cymraeg. Gan fod y safbwyntiau hyn yn diystyru egwyddorion y Cynllun ac nad oeddent yn adeiladol, nid ydynt wedi cael eu defnyddio yn y crynodebau manwl isod; ond er mwyn bod yn agored ac yn dryloyw, y brif neges yn yr ymatebion hynny oedd y 'dylid rhoi'r gorau i weithio ar y Cynllun'; nad oedd 'dim angen dim byd arall ar wahân i'r Saesneg' ac y byddai 'adnoddau'n cael eu gwario'n well mewn mannau eraill'.

Fel arall, roedd y rhan fwyaf o'r safbwyntiau (a nifer fach o safbwyntiau pan roedd hynny'n briodol) i gwestiynau'r ymgynghoriad fel a ganlyn:

4. Ymatebion i gwestiynau penodol

Cwestiwn 1: Sut ydych chi'n meddwl y dylai'r gwasanaeth Cymraeg weithredu y tu allan i Gymru? A ddylai bod grŵp o garchardai lle cedwir y nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn derbyn gwasanaeth lefel uwch?

Roedd ymatebwyr yn meddwl y byddai gwerth cael carchardai penodol yn Lloegr sy'n cynnig gwasanaethau gwell yn Gymraeg, yn enwedig gan y byddai'r staff yn fwy ymwybodol o anghenion siaradwyr Cymraeg a'r Cynllun; ond egwyddor sylfaenol Deddf yr Iaith Gymraeg yw bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ac ar y sail hon dylai **pob** carcharor allu cael mynediad at y Gymraeg, ni waeth lle y mae. Roedd materion posibl hefyd yng nghyswllt unigedd i garcharorion o Gymru yn Lloegr y byddai'n anodd darparu gwasanaeth Cymraeg llawn iddynt.

Cwestiwn 2: Fel y disgrifir ar dudalen 17 y Cynllun, nid oes cyfleuster carcharu i ferched yng Nghymru. O ystyried hyn, a oes gennych farn benodol ynglŷn â beth yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenion merched sy'n siarad Cymraeg sydd yn y carchar?

Unwaith eto, at ei gilydd roedd yr ymatebwyr yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol targedu carchardai penodol yn yr ystâd ar gyfer menywod ac roeddent yn meddwl y byddai hynny o fantais i garcharorion ac i staff, er mwyn gallu cyfathrebu yn Gymraeg er enghraifft. Yn yr un modd roedd teimlad na ddylem ddarparu gwasanaeth i fenywod nad yw ar gael i ddynion. Nodwyd materion penodol i fenywod a oedd yn ymwneud ag unigedd ac roedd cred y gellid gwaethygu'r rhain os oedd mynediad i'r Gymraeg yn gyfyngedig hefyd. Roedd awgrym ein bod yn ystyried y syniad o 'garchardai sy'n derbyn siaradwyr Cymraeg' (gan gynnwys Eastwood Park, Styal a Drake Hall) gan weithio'n benodol i dargedu anghenion penodol pob menyw, a allai fod yn wynebu unigedd.

Cwestiwn 3: A yw Adran 7 – 'Y Gwasanaeth Cymraeg mewn Carchardai' yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir gan y gwasanaeth carchardai wrth ddarparu gwasanaethau i droseddwyr sy'n siarad Cymraeg? A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol am yr adran hon ?

Gyda golwg ar Gynefino – roedd ar yr ymatebwyr eisiau sicrwydd y byddai holi carcharorion am eu dewis iaith yn cael ei fonitro ac roedd arnynt eisiau eglurhad ynghylch pa mor ymarferol oedd cynnig trosglwyddo carcharorion i leoliadau sydd â darpariaeth well ar gyfer y Gymraeg. Soniodd un ymatebydd am yr angen i newid y Cyfarwyddyd Gwasanaeth Carchardai diwrnodau cyntaf i egluro bod gan garcharorion o Gymru hawl i gael gwasanaeth yn Gymraeg, ac na ddylid cyfuno hyn â dealltwriaeth neu allu carcharor i gyfathrebu yn Saesneg. Galwadau ffôn: lle'r oedd materion

amddiffyn plant / diogelu'r cyhoedd posibl, derbynnir y byddid yn trin hyn yn yr un modd ag unrhyw iaith arall.

Roedd yr ymatebwyr yn falch o weld y byddai polisi NOMS yn cael ei addasu i gyfeirio at siaradwyr Cymraeg ar wahân, yn hytrach na'u cyfuno â phobl o dramor fel yr oedd wedi digwydd yn y gorffennol. Ailadroddodd yr ymatebwyr mai elfen allweddol o'r gwasanaeth Cymraeg fyddai darparu'n gyfartal ar gyfer carcharorion Cymraeg a Saesneg er mwyn hybu cynhwysiant ee gyda deunyddiau darllen Cymraeg. Cafwyd cyfeiriad penodol at gaplaniaid carchardai hefyd yn gallu cael gafael ar adnoddau sesiynol gweinidogion a chlerigwyr sy'n siarad Cymraeg yn ôl yr angen a phrynu copïau o feiblau a chyhoeddiadau crefyddol eraill yn Gymraeg..

Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno ag Egwyddorion Cyffredinol y Cynllun?

Roedd yr holl ymatebwyr a oedd wedi ymwneud yn gadarnhaol â'r ymgynghoriad (fel y disgrifir ar dudalen 6) yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y cynllun ac yn fodlon ar ymdrechion NOMS.

Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno â'r manylion yn Adran 4 Gwasanaeth Cymraeg Asiantaeth NOMS? A oes gennych gwestiynau penodol?

Un pwynt cyffredinol a wnaed ynghylch y terminoleg oedd – dylid cyfeirio at garcharorion sy'n siarad Cymraeg fel 'carcharorion eu dewis iaith yw'r Gymraeg'.

O ran gwasanaeth ffôn, roedd pryderon ynghylch y gallu i ddarparu nifer cymesur o siaradwyr Cymraeg mewn carchar i gyfateb i'r nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth yn y gymuned. Hefyd roedd cred nad oedd y gwasanaeth cyfieithu presennol yn ddigon i ddiwallu'r galw / angen. Awgrymodd un ymatebydd fod rhywun sy'n dymuno siarad Cymraeg dros y ffôn yn cael cynnig trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg arall neu Uned Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder [*rydym eisoes wedi ymrwymo i lunio rhestr o staff sy'n siarad Cymraeg sy'n gallu cynnal sgwrs ffôn yn Gymraeg, i'r holl staff*].

Gyda golwg ar hunaniaeth gorfforaethol, gofynnodd un ymatebydd i arwyddion Cymraeg yn swyddfeydd NOMS gynnwys carchardai [*dyma fu'r bwriad erioed – mae'r term 'swyddfeydd NOMS yng Nghymru' yn cynnwys carchardai. Fodd bynnag, mae hyn wedi tynnu sylw at yr angen i newid yr iaith yn y Cynllun i sicrhau ein bod yn glir ynghylch y swyddfeydd / sefydliadau rydym yn cyfeirio atynt*].

Roedd cred nad oedd termau fel 'i'r graddau sy'n rhesymol ac yn bosibl' yn briodol a'u bod yn gwanhau egwyddor y Cynllun. [*Rydym yn cytuno â'r datganiad hwn a byddwn yn diwygio rhannau perthnasol o'r Cynllun i egluro y byddwn yn darparu gwasanaethau yn unol â phrotocol diogelwch a diogelu'r cyhoedd*].

Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu: O ran Oasys, nid oedd un o'r ymatebwyr yn credu bod yr oedi wrth gyfieithu adroddiadau cyn-dedfrydu ac asesiadau risg i'r Gymraeg yn deg; yn yr un modd, yr angen i gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg pan fydd angen yr adroddiad ar unwaith wrth drosglwyddo i garchar. Yr ateb a awgrymwyd i hyn oedd darparu meddalwedd cyfieithu awtomatig o'r cychwyn cyntaf.

Cyfarfodydd a chynadleddau cyhoeddus: roedd un ymatebydd yn meddwl na ddylai siaradwyr Cymraeg orfod roi rhybudd ymlaen llaw os ydynt yn dymuno cymryd rhan yn Gymraeg. Credid mai'r ateb gorau oedd cynnal bob cyfarfod yn ddwyieithog, gan gynnwys papurau / deunyddiau'r cyfarfod.

O ran argaeledd cyhoeddiadau Cymraeg, cafwyd awgrym i ailystyried y meini prawf ar gyfer peidio â chyfieithu i'r Gymraeg i sicrhau bod grwpiau llai yn gallu cael gwybodaeth y mae ganddynt yr un angen amdani os nad mwy.

Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno â'r manylion yn Adran 5 Gweithredu'r Cynllun? A oes gennych gwestiynau penodol?

Yn gyffredinol roedd yr ymatebwyr yn fodlon ar y cynlluniau gweithredu. Roedd ar un ymatebydd eisiau eglurhad ynghylch swyddogaeth pencampwyr y Gymraeg. Roedd un arall o'r farn y gallai galluoedd recriwtio presennol atal cais yn Gymraeg. Cafwyd awgrym hefyd ar gyfer cydweithio rhwng Prawf Cymru a NOMS ar amcanion a rennir.

Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno â'r Cyflwyniad a'r disgrifiadau lefel uchel o'r rhan y bydd pob adran yn ei chwarae wrth weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg? A yw'r disgrifiadau'n glir?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cyflwyniad a'r disgrifiadau lefel uchel. Un farn oedd y gallai'r cyfeiriad ym mharagraff 8.4 at y diffyg angen am sgiliau Cymraeg yn y rhan fwyaf o garchardai oherwydd y bydd y rhan fwyaf o garcharorion Cymru yng Nghymru yn anghywir gan nad oedd ffigurau i gefnogi hyn.

Cwestiwn 8: A ydych yn cytuno ag Adran 9 – 'Monitro'r Cynllun a Chyhoeddi Gwybodaeth'?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r adran hon ond roedd rhai cwestiynau ynghylch monitro gwasanaethau a ddarperir gan drydydd partïon a monitro nifer y carcharorion y Gymraeg yw eu dewis iaith..

Cwestiwn 9: A ydych yn cytuno â'n dulliau o roi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun, gan gynnwys ein trefn gwyno?

Yn gyffredinol roedd yr ymatebwyr yn cytuno. Roedd cwestiwn ynghylch y broses ar gyfer adnabod a chofnodi cwynion a wneir yn uniongyrchol i garchardai. Cafwyd awgrym hefyd ein bod yn gofyn am farn rhanddeiliaid

(gan gynnwys carcharorion) ynghylch ansawdd y gwasanaethau Cymraeg drwy holiadur.

Cwestiwn 10: A ydych yn cytuno â'r amserlenni a'r cyfrifoldebau fel y maent wedi'u nodi yn yng Nghynllun Gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg NOMS – Atodiad A?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn meddwl bod yr amserlenni yn y cynlluniau gweithredu yn uchelgeisiol ac y byddai angen eu hadolygu yng nghyhoeddiad terfynol y Cynllun.

Cwestiwn 11: A ydych yn gwybod am unrhyw ddogfennau polisi eraill y dylid cyfeirio atynt yn Atodiad B ac ym mhrif destun y Cynllun hwn?

Nid oedd dim o'r ymatebwyr yn ymwybodol o unrhyw ddogfennau polisi perthnasol eraill..

12. Unrhyw Sylwadau Eraill:

Dyma'r sylwadau ychwanegol a gafwyd:

Mae NOMS Cymru wedi ymrwmo i weithrediad a chydymffurfiad Cynllun Iaith Gymraeg ar sail cydraddoldeb, i'r graddau sy'n briodol ac yn rhesymol ymarferol. Er gwaethaf hyn nid yw'r ddogfen ymgynghori yn glir ynghylch y costau disgwylidig sydd i'w talu ar lefel leol, hy pa ddisgwylid sydd i sefydliadau dalu am weithredu'r cynllun ynteu a ddisgwylir i hyn fod yn fach ar sail mabwysiadu dull gweithredu ymarferol a fydd yn gymesur i'r galw; er enghraifft pwynt gweithredu 52, pwy fydd yn talu am hyfforddiant iaith Gymraeg, a yw'r hyfforddiant hwn yn orfodol i'r holl staff ac, os felly, pa lefel y disgwylir iddynt ei chyflawni? A ystyriwyd y costau a'r amser sydd ynghlwm wrth gyhoeddi dogfennau lleol perthnasol, ynteu a yw hyn yn disgyn o dan yr hyn a ystyrir yn ddull gweithredu sy'n briodol ac yn rhesymol ymarferol.

A ellir ystyried sut gall y Llysoedd roi gwybod i garchardai am droseddwy'r sy'n siarad Cymraeg – mae hwn yn fwy o fater i Garchar EM Caerdydd, Carchar EM Abertawe a Charchar EM y Parc gan mai dyma'r carchardai lleol a'u bod yn derbyn troseddwy'r yn uniongyrchol o'r Llysoedd.'

'Nodir yr ymrwymiad yn GLITEM ynghylch y ffordd orau o ymdrin â materion sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth ynghylch dewisiadau Cymraeg troseddwy'r (Cynllun Gweithredu (Pwynt 65 -p 39). Efallai y gall Prawf Cymru hefyd helpu / cyfrannu at symud y mater pwysig hwn ymlaen.'

'Mae angen sicrhau bod deunyddiau Rhaglenni Achrededig ar gyfer troseddwy'r ar gael yn ddwyieithog.'

'Rydym yn croesawu cyhoeddi'r ddogfen ac yn diolch i chi am y cyfle i gyflwyno sylwadau. Er ein bod wedi nodi rhai materion pwysig, rydym yn teimlo bod hon yn ddogfen gadarnhaol iawn sy'n cefnogi trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Os caiff ei gweithredu'n llwyddiannus, gallai wneud

byd o wahaniaeth i randdeiliaid gan gynnwys troseddwr (y mae'r Gymraeg yn ddewis iaith iddynt) ac sy'n rhan o'r system Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru a Lloegr.'

Y casgliad a'r camau nesaf

Daeth y rhan fwyaf o ymatebion llawn gan staff yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder yng Nghymru, sy'n gyfarwydd â'r amgylchedd darparu a'r materion sy'n wynebu pobl y mae'r Gymraeg yn ddewis iaith iddynt. Pan fo'r awgrymiadau'n gymesur ac yn rhesymol, byddwn yn diwygio'r Cynllun yn unol â hynny..

Rydym hefyd wedi cynnal trafodaethau gyda'r amrywiol ddeiliaid polisi yn ystod y cyfnod ymgynghori er mwyn dechrau rhoi'r cynllun gweithredu ar waith. Mae'r trafodaethau hyn wedi ein galluogi i lunio cysylltiadau defnyddiol gydag arweinwyr polisi a phenderfynu ar y dulliau gweithredu gorau. Er enghraifft, er bod yr ymatebwyr yn credu bod yr awgrym o gael gwasanaeth gwell mewn 'carchardai penodol sy'n derbyn siaradwyr Cymraeg' yn syniad da, rydym wedi penderfynu y dylai fod yn bosibl i ni ddarparu'r gwasanaeth gwell hwn i bob carchar yn Lloegr. Hefyd, ni allem fod yn siŵr y byddai system o'r math hwn yn darparu ar gyfer yr holl garcharorion y mae Cymraeg yn ddewis iaith iddynt.

I gloi, nid oedd yr ymgynghoriad hwn wedi denu nifer yr ymatebion disgwylidig, ond ar y cyfan roedd yr ymatebion yn ddefnyddiol ac yn gall. O'r herwydd ni fydd y Cynllun Iaith Gymraeg yn newid yn sylweddol; yn hytrach bydd yn cael ei addasu i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r safonau, cywirdeb a chyflawnrwydd. Mae'r rhan fwyaf o'r sylwadau a wnaed yn yr ymatebion yn ymwneud â darparu ar lawr gwlad, y mae'r manylion yn fwy priodol i'r Cyfarwyddyd Gwasanaeth Carchardai.

Y Camau Nesaf

Byddwn yn parhau i ddiwygio ein Cynllun yng ngoleuni'r ymgynghoriad hwn a'n nod yw cyhoeddi erbyn 1^{af} Ebrill gyda chymeradwyaeth gan y Comisiynydd. Byddwn wedyn yn dechrau darparu'r cynllun gweithredu a drafftio'r Cyfarwyddyd Gwasanaeth Carchardai newydd.

Egwyddorion yr ymgynghoriad

Mae egwyddorion yr ymgynghoriad yn rhoi'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisiau a deddfwriaeth.

<http://www.cabinetoffice.gov.uk/sites/default/files/resources/Consultation-Principles.pdf>

Atodiad A – Rhestr o'r Ymatebwyr

Prawf Cymru – Ella Rabaiotti

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi - Natasha Whitney-Jones

NOMS Cymru ac Ystad Carchardai Cymru - Sonia Davies

Cyngor Esgobaethol Lerpwl ar gyfer Cymorth Cymdeithasol - Ultan Russell

Aelodau o'r cyhoedd - Norman Scarth, Tony Frost, Lou Sharman, David Barnard

© Hawlfraint y Goron 2013
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys logos) yn rhad ac am ddim
mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth
Agored. I weld y drwydded hon, ewch i
<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu
anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi cyfeirio at unrhyw ddeunydd sydd dan hawlfraint trydydd parti,
bydd angen ichi gael caniatâd perchennog yr hawlfraint honno.

Gellir cael fersiynau eraill o'r adroddiad hwn
drwy wneud cais i
welshlanguage@noms.gsi.gov.uk